# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 2 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(61)v4

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)**
Gweld y cwestiynau

**Cwestiwn Brys**

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** Yn ychwanegol at ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog heddiw, a'r newyddion y bu angen cymorth ariannol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar dri bwrdd iechyd lleol, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad brys ar y goblygiadau ar gyfer cyllideb y GIG.

**3. Cynnig i sefydlu'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog (1 funud)**

**NDM4969 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

1. Yn sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog; a

2. Yn cytuno mai cylch gwaith y Pwyllgor fydd craffu ar waith y Prif Weinidog am unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru.

**4. Cynnig i ethol Aelodau'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog (1 funud)**

**NDM4970 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol:

1. Paul Davies (Ceidwadwyr), Mark Drakeford (Llafur), Elin Jones (Plaid Cymru), David Melding (Ceidwadwyr) ac Eluned Parrott (Democratiaid Rhyddfrydol) yn aelodau o’r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog; a

2. David Melding (Ceidwadwyr) yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog.

**5. Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Iechyd y Geg mewn Plant (60 munud)**

**NDM4971 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr ymchwiliad i iechyd y geg ymhlith plant, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Chwefror 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 25 Ebrill 2012.

**Dogfennau Ategol:**
Adroddiad gan y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

**NDM4972 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) y manteision i economi Cymru a fyddai’n dod yn sgîl rhewi’r dreth gyngor;

b) yr arian canlyniadol gwerth £38.9m gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i gyllido rhewi’r dreth gyngor yn Lloegr;

c) y byddai cost rhewi’r dreth gyngor yn y flwyddyn ariannol 2012-13 yn sylweddol is na’r £38.9m;

d) y manteision y gellid eu gwireddu gyda gweddill yr arian i helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru

2. Yn galw am dryloywder, atebolrwydd ac effeithlonrwydd llwyr mewn gwariant cyhoeddus yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu ‘rhewi’r dreth gyngor’ a rhoi yn ei le ‘rhagor o wariant ar seilwaith’

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliannau 3 a 4 yn cael eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 1, dileu popeth ar ôl ‘yn ’ a rhoi yn ei le ‘Lloegr ac yn credu y dylid defnyddio’r arian hwn i ysgogi economi Cymru, gan gynnwys helpu busnesau bach a chanolig yng Nghymru.’

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ar ddiwedd pwynt 1b, ychwanegu:

“ac yn croesawu’r pecyn ysgogi economaidd a gyllidwyd ganddo.”

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu pwynt 1c ac 1d.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2: ‘yn cynnwys gwneud gwell defnydd o wariant ar seilwaith’

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod 16 Cyngor Ceidwadol yn Lloegr ac un yng Nghymru wedi methu â dilyn polisi’r blaid Geidwadol wrth iddynt gynyddu’r dreth gyngor eleni.

**Gwelliant 7 - Peter Black (Gorllewin De Cymru) - Yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.23(iii), ni ddetholwyd y gwelliant hwn.**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

"Yn croesawu’r rheolaeth ariannol ofalus a gaiff ei chyflawni gan awdurdodau lleol a arweinir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd wedi’u galluogi i gadw’r codiadau yn y dreth gyngor yn isel dros yr wyth mlynedd diwethaf."

**7. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)**

**NDM4973 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu’r rheolaeth ariannol ofalus a gaiff ei chyflawni gan awdurdodau lleol a arweinir gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru sydd wedi’u galluogi i gadw’r

codiadau yn y dreth gyngor yn isel dros yr wyth mlynedd diwethaf.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Yn annog rheolaeth ariannol ofalus ar ran pob awdurdod lleol i'w galluogi i rewi'r dreth gyngor

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd.

Yn gresynu wrth fethiant Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r £38.9 miliwn o arian canlyniadol er mwyn gallu rhewi'r dreth gyngor ledled Cymru.

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am

**8. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM4968 Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Gofal Hosbis a Gofal Lliniarol yng Nghymru**

Wrth i'r boblogaeth heneiddio ac wrth i bobl ddynesu at ddiwedd eu hoes gydag anghenion gofal mwy cymhleth drwy'r amser, nodir bod hwyluso mynediad at ofal lliniarol a gofal diwedd oes sy'n gost effeithiol ac o ansawdd uchel yn mynd i ddod yn fwyfwy pwysig.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 8 Mai 2012